Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Cyflenwad Cig Eidion: Diweddariad a Rhagolwg

Ebrill 2024

RHWNG Y LLINELLAU
BETWEEN THE LINES




hybucig.cymru

# Cyflwyniad

*Mae ffermwyr ledled Cymru yn parhau i gael eu heffeithio gan chwyddiant cronnus mewnbynnau amaethyddol, gyda chynhyrchwyr cig eidion yn arbennig yn profi amgylchedd heriol oherwydd costau uwch, materion TB, newidiadau yn y dirwedd wleidyddol, ac amodau'r tywydd i gyd ar waith. Yn yr adroddiad hwn, rydym ni'n edrych ar beth fydd y lefelau cyflenwi posibl ar gyfer y flwyddyn i ddod ac i mewn i 2025.*

## Marchnad Gyfredol

Ar y cyfan, roedd pris pwysau marw cyfartalog categorïau gwartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn gryf yn ystod 2023, ac fe arhosodd yn uwch na lefelau blwyddyn yn gynharach am y flwyddyn gyfan. Cyrhaeddodd prisiau pwysau marw cyfartalog bustych uchafbwynt o £4.90 yng nghanol mis Mai - rhyw 12% yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt. Mae prisiau cyfartalog a gofnodwyd hyd yma yn 2024 ar gyfer bustych eisoes wedi codi'n uwch na'r pris uchaf a welwyd y llynedd. Ar adeg ysgrifennu, roedd y cyfartaledd yn gogwyddo tuag at y marc £4.91 yng Nghymru a Lloegr yn dilyn 9 wythnos yn olynol o godiadau mewn prisiau ers dechrau'r flwyddyn newydd. Mae hyn tua 1% yn uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt, ac 28% yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd tymor hwy. Mae heffrod hefyd yn gogwyddo yn agos y tu ôl i'r lefelau hyn ar tua £4.91/kg, tra bod teirw ifanc ar gyfartaledd yn £4.73/kg ar yr adeg.



Roedd prisiau pwysau marw ar gyfer gwartheg difa yn fwy cyfnewidiol yn ystod 2023. Roedd cyfartaleddau hanner cyntaf y flwyddyn yn gogwyddo'n uwch na'r lefelau blwyddyn yn gynharach, fodd bynnag, fe wnaeth y prisiau dreulio'r ail hanner yn is na lefelau 2022. Mewn modd tebyg i prisiau pwysau marw bustych; roedd cyfartaledd y fuwch ddifa ar ei uchaf ar £3.87 ddiwedd Mai - oedd tua 8% yn uwch na'r un cyfnod yn 2022. Mae'r cyfartaleddau presennol yn gogwyddo tua £3.46 ar adeg ysgrifennu, sy'n gynnydd o dros 30c ers dechrau 2024, ond mae'r cyfartaledd yn is na'r cyfnod cyfatebol y llynedd o tua 35c.

Cynhyrchodd y DU 900,600 tunnell o gig eidion a chig llo yn 2023 yn ôl data gan Defra. Mae hyn yn ostyngiad o 2% o'i gymharu â 2022 - a'r cyfaint blynyddol isaf a gynhyrchwyd ers 2018. Roedd y lefelau cynhyrchu is oherwydd gostyngiad o 2% yng nghyfanswm y trwybwn gwartheg i 2.77 miliwn o ben, tra bod pwysau carcas blynyddol cyfartalog ar gyfer y rhan fwyaf o gategorïau yn ysgafnach flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd y cyflenwad yn ystod 2023 yn dynn o ganlyniad. I nodi; mae trwybwn heffrod wedi bod yn uwch odi yn ystod y 5 mlynedd diwethaf ac roedd cyfanswm o 809,300 pen yn 2023 (cynnydd o 0.4% ar lefelau blwyddyn ynghynt). Mae hyn yn awgrymu nad yw dirywiad y fuches fridio yn y DU yn debygol o gildroi yn y dyfodol agos.

Yn ôl data gan CThEF, allforiodd y DU bron i 134,000 tunnell yn 2023, sydd 15% yn is na lefelau blwyddyn yn gynharach - yn bennaf oherwydd bod llai o gynnyrch ar gael ar y farchnad ddomestig a llai o alw byd-eang. O edrych ar alw defnyddwyr ar y farchnad ddomestig; prynodd dros 80% o aelwydydd ym Mhrydain Fawr (GB) gig eidion ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn yn ôl ffigyrau Kantar, ac felly roedd y galw yn gadarn i raddau helaeth. Wrth i bwysau costau byw barhau i ddylanwadu ar arferion siopa a bwyta defnyddwyr, mae gwerthiannau briwgig yn parhau i ddangos cryfder yn y sector manwerthu. O edrych ar gyfanswm cyfaint y cig eidion a werthwyd ym manwerthu Prydain Fawr yn 2023, roedd briwgig yn cyfrif am 55% o'r cyfaint hwn - sy'n gynnydd nodedig o gyfrif am 50% yn ôl yn 2021. Er bod goblygiadau posibl o ran cydbwysedd carcasau os yw'r duedd hon yn parhau, mae'n debygol bod galw cadarn am gig eidion wedi rhoi cymorth i'r sector yn ystod y flwyddyn.

## Poblogaeth Bresennol Gwartheg

Mae Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) yn cofnodi nifer y gwartheg ar lawr gwlad ar draws Prydain Fawr sy'n rhoi awgrym o nifer y boblogaeth a chyflenwad posibl. Ar 1 Ionawr 2024, roedd cyfanswm y gwartheg a'r lloi ar lawr gwlad ym Mhrydain yn 7.7 miliwn pen - 1.2% (neu 89,700 pen) yn llai nag ar 1 Ionawr 2023 yn ôl y data diweddaraf gan BCMS. Mae maint y fuches bresennol hefyd oddeutu 1% yn llai na mis Ionawr 2022 a 2021 hefyd, a 4.5% yn llai nag ym mis Ionawr 2019.

Cofnododd y **fuches cig eidion** ostyngiad blwyddyn ar flwyddyn o 0.5%, gyda chyfanswm y gwartheg cig eidion yn 4.9 miliwn pen yn 2024, tra bod y **fuches laeth** wedi gostwng 2.3% ar y flwyddyn i 2.7 miliwn pen. Mae cynnydd o bron i 1% yn nifer y **gwartheg cig eidion gwrywaidd** ar lawr gwlad wedi lleihau effaith dirywiad a welwyd yn nifer y gwartheg cig eidion benywaidd. Cyfyngwyd twf cyffredinol y fuches laeth gan ostyngiad o 17% yn **nifer y gwartheg llaeth gwrywaidd** - yn debygol o ganlyniad i'r defnydd cynyddol o semen rhywedd yn y diwydiant llaeth.


Roedd nifer y gwartheg **o dan 30 mis** oed ym Mhrydain yn 4.9 miliwn pen, sydd, er ei fod yn ostyngiad o 1% ers 2023, mae'r lefel bresennol mewn gwirionedd yn debyg i lefelau 2022 a bron 2% yn uwch na'r lefelau a gofnodwyd ym mis Ionawr 2021. I'r gwrthwyneb; roedd cyfanswm y gwartheg **30 mis oed a throsodd** yn 2.8 miliwn pen - gostyngiad o 1.5% ers 2023, a bron i 4% yn llai nag yn 2022. Mae'r trwybwn gwartheg llawn dwf uchel a ddangosir yn nata lladd-dai Defra yn cael ei adlewyrchu yn y data poblogaeth gwartheg BCMS.

## Edrych Ymlaen

Fel y soniwyd eisoes, gostyngodd cyfanswm y gwartheg **o dan 30 mis** oed ym Mhrydain Fawr ar 1 Ionawr 2024 1% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Drwy ddadansoddi'r categorïau gwartheg a'r ystodau oedran, mae'n bosibl amcangyfrif y cyflenwad posibl o wartheg ar y farchnad yn ystod y tymor byr a'r tymor canolig.

### *Tymor Byr:*

O ran y cyflenwad posibl o wartheg dethol ar y farchnad yn y tymor byr (h.y., gwartheg cig eidion a gwrywod llaeth **12-30 mis** oed), mae ffigurau BCMS yn dangos bod 2% (neu 26,500 yn fwy o anifeiliaid ar lawr gwlad ar 1 Ionawr eleni o'i gymharu â 2023 ar 1.8 miliwn pen. Cofnododd pob categori o anifeiliaid cig eidion yn y braced oedran hwn gynnydd blwyddyn ar flwyddyn mewn niferoedd, tra bod niferoedd gwartheg llaeth gwrywaidd i lawr 18% yn y braced oedran hwn.




Cofnododd **gwrywod cig eidion** rhwng 18 a 30 mis oed y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn mewn termau rhifiadol (i fyny 6%, neu 27,200 pen) gan sbarduno llawer o'r cynnydd cyffredinol a welwyd yn y categori hwn. Cofnododd **gwartheg cig eidion benywaidd** o'r braced oedran hwn hefyd gynnydd nodedig o dros 13,000 o ben. Bydd hyn yn debygol o arwain at gyflenwad digonol o wartheg dethol yn dod i'r farchnad yn y tymor byr i'r tymor canolig, fodd bynnag, gellir defnyddio rhai o'r gwartheg hyn yn lle buchod sugno, ac mae data pwysau carcasau gan Defra yn awgrymu bod carcasau anifeiliaid dethol yn cynnwys llai o fraster (gweler Tabl 1 isod). O ganlyniad, byddai'n rhaid i ladd-dai gystadlu am anifeiliaid dethol er mwyn cynhyrchu'r un cyfaint mewn tunelli.


### Tabl 1: Pwysau Cig ar y Gambren Blynyddol y DU (KG)

| | Bustych | Heffrod |
|---|---|---|
| 2019 | 362.8 | 324.5 |
| 2020 | 361.2 | 327.0 |
| 2021 | 360.7 | 327.1 |
| 2022 | 359.8 | 326.1 |
| 2023 | 356.4 | 321.8 |

*ffynhonnell: Defra*

## *Tymor Hirach:*

O edrych ar y cyflenwad posibl o gynhyrchiant eidion dethol ar y farchnad ddomestig yn ystod y tymor hwy (h.y. gwartheg cig eidion a llaeth gwrywaidd 0-12 mis oed), mae'r darlun ychydig yn wahanol. Mae ffigurau BCMS yn dangos bod y niferoedd i lawr o 3% (neu 57,500 pen) ar y flwyddyn ar bron i 1.9 miliwn pen (er y bydd rhai o'r gwartheg hyn yn cael eu defnyddio yn lle buchod sugno). Mae gostyngiad yn nifer y gwartheg llaeth gwrywaidd 0-12 mis oed wedi sbarduno'r dirywiad hwn mewn anifeiliaid o dan 12 mis oed. Wrth i loi tarw llaeth sy'n cael eu bridio gyfrannu at gyfanswm y cig eidion a gynhyrchir yn y DU, bydd gostyngiad o 19% (neu 21,600 pen) yn nifer yr anifeiliaid hyn ar lawr gwlad yn debygol o gael effaith fwy dwys ar lefelau cynhyrchu yn y tymor hwy. Mae nifer y gwartheg cig eidion benywaidd a gwrywaidd yn y categori oedran hwn i lawr tua 2% (neu 18,000 pen) yr un o'i gymharu â mis Ionawr 2023. Mae hyn yn awgrymu y bydd cyflenwadau gwartheg dethol ar y farchnad yn debygol o dynhau ymhellach i mewn i 2025 - yn enwedig gan ein bod hefyd yn profi gostyngiad ym maint y fuches fagu.




Mae buches fridio Prydain Fawr wedi bod yn cwtogi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda'r data BCMS diweddaraf yn nodi maint y fuches fridio ym Mhrydain Fawr (h.y., gwartheg cig eidion a llaeth benywaidd dros 30 mis) yn 2.7 miliwn pen ym mis Ionawr 2024. Mae hwn yn gwtogiad o bron i 2% o'i gymharu â 2023, a 6% yn llai o'i gymharu ag Ionawr 2021. Er gwaethaf dirywiad clir, nid yw nifer y cig eidion wedi dilyn yr un gostyngiadau nodedig - cynhyrchwyd 900,600 tunnell o gig eidion yn 2023, sydd ddim ond 1% yn llai na'r cyfeintiau a gynhyrchwyd yn 2021. Mae hyn yn debygol o ganlyniad i newidiadau i reoliadau rheoli lloi llaeth, a mwy o ddefnydd o semen llaeth a chig eidion rhywedd, sydd wedi arwain at fwy o anifeiliaid ar gael ar gyfer cynhyrchu cig eidion. Fodd bynnag, mae'r dirywiad yn y categori oedran gwartheg iau fel y trafodwyd yn yr adroddiad hwn yn dangos efallai bod cwtogiad y fuches fridio yn dechrau gorbwyso'r newidiadau mewn tueddiadau ffrwythloni. Bydd buches fridio llai yn arwain at lai o gofrestriadau lloi, a fydd yn debygol o arwain at lai o anifeiliaid sy'n barod i'w lladd ar gael ar y farchnad ddomestig yn y blynyddoedd i ddod.



## Cyflenwad Byd-eang

Mae'r DU tua 80% yn hunangynhaliol o ran cynhyrchu cig eidion a chig llo, gyda galw domestig cryf am doriadau pedrain cig eidion, ac felly mae masnach yn bwysig. Yn ystod 2023, mewnforiodd y DU tua 291,200 tunnell o gig eidion - gostyngiad o 4% ar lefelau 2022, yn ôl data CThEF. Iwerddon yw'r prif gyflenwr o hyd er bod cyfeintiau tua 2% yn is ar y flwyddyn, gan arwain at gyfran o'r farchnad o 66%. Yn ôl Bord Bia, roedd trwybwn gwartheg yn Iwerddon yn dynn yn 2023 ac felly roedd cyflenwad cyfyngedig ar gael i'w allforio i'r DU. Rhagwelir y bydd cyflenwadau gwartheg Iwerddon yn tynhau ymhellach yn 2024, felly gallwn ddisgwyl i lai o gyfaint ddod o Iwerddon.

O edrych ar gyfeintiau cynhyrchu cig eidion ar y farchnad fyd-eang ar gyfer 2024; bydd cyflenwadau yn dynn yn dilyn cyflenwadau gwartheg tynnach gan wledydd fel yr Ariannin a'r Unol Daleithiau. Mae gostyngiadau sylweddol yn nifer y gwartheg wedi'u cofnodi yn rhestr yr Unol Daleithiau, gyda'r fuches fel ei maint lleiaf ers 70+ mlynedd, felly mae'r USDA yn rhagweld gostyngiad o 6% mewn allforion cig eidion o'r Unol Daleithiau yn 2024. Mae lefelau lladd gwartheg is hefyd yn cael eu rhagweld ar gyfer yr UE - gyda disgwyl i'r cynhyrchiad ostwng 1% - oherwydd cwtogiad buchesi aml-flwyddyn a galw defnyddwyr isel. Yn ôl y rhagolwg diweddaraf a gyhoeddwyd gan Adran Amaeth yr Unol Daleithiau (USDA), bydd Awstralia a Brasil yn gweld mwy o gynhyrchu ac yn debygol o ennill cyfran o'r farchnad yn yr Unol Daleithiau wrth i'r cyflenwad dynhau yno - fodd bynnag bydd gan Awstralia fantais yma oherwydd Cytundeb Masnach Rydd yr UD-Awstralia. Gyda'r UE ac Iwerddon yn agosach at adref ac yn profi cyflenwad tynn, gall y rhagolygon o gyflenwad digonol ar y farchnad ddomestig arwain at dwf cadarnhaol yn y farchnad allforio wrth i'r galw am gig eidion barhau i fod yn gadarn ledled y byd trwy gydol 2024 - fodd bynnag bydd natur gystadleuol y cynnyrch ar y farchnad fyd-eang hefyd yn chwarae rhan yma.

## Crynodeb

- **Ar hyn o bryd, mae prisiau giât y fferm ar gyfer pob categori o wartheg dethol yn gogwyddo yn uwch na lefelau blwyddyn yn gynharach.**
- **Mae pwysau chwyddiant yn dylanwadu ar ymddygiadau siopa defnyddwyr, gyda chyfran y briwgig yn cael ei werthu ar gynnydd.**
- **Mae ffigyrau diweddaraf y boblogaeth gan BCMS yn dangos y bydd y cyflenwad yn debygol o fod yn fwy digonol yn y tymor byr o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach gan fod 2% yn fwy o wartheg rhwng 12-30 mis oed ar lawr gwlad ym Mhrydain.**
- **Yn y tymor hwy, gall y cyflenwad posibl o wartheg ym Mhrydain dynhau rhywfaint gan fod nifer yr anifeiliaid 0-12 mis oed i lawr 3% ar y flwyddyn.**
- **Roedd buches fridio Prydain Fawr yn 2.7 miliwn pen ym mis Ionawr 2024 - cwtogiad o bron i 2% o'i gymharu â 2023, a 6% yn llai nodedig o'i gymharu ag Ionawr 2021.**
- **Wrth edrych ymhellach ymlaen, mae'r dirywiad yn y categori oedran gwartheg iau fel y trafodwyd yn yr adroddiad hwn yn dangos bod cwtogiad y fuches fridio yn dechrau gorbwyso'r newidiadau yn nhueddiadau'r diwydiant, a fydd yn arwain at lai o gofrestriadau lloi yn 2024 ac felly llai o anifeiliaid sy'n barod i'w lladd ar gael i 2026 a thu hwnt.**
- **Mae'r rhagolwg USDA yn rhagweld cyflenwad tynn o gig eidion ar y farchnad fyd-eang yn 2024, tra bydd Iwerddon a'r UE yn profi llai o gyfeintiau cynhyrchu.**
- **O ganlyniad, mae galw o hyd am gig eidion ledled y byd, a allai ddarparu cefnogaeth i'r farchnad ddomestig wrth i gyfleoedd ar gyfer mwy o allforion godi.**

***Nodiadau***

*Adroddwyd am ddata a gafwyd gan CThEF, Defra a'r BCMS ddechrau mis Mawrth 2024 ac maen nhw'n destun adolygiad.*
*Mae data cyfaint yn cael ei ddangos mewn tunelli (cyfwerth â phwysau carcas). Nid yw data cofrestru a gafwyd gan BCMS yn cynnwys data 'gwag'.*



**meatpromotion.wales**

© Hawlfraint Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales, 2024